y dinesydd

Ebrill/Mai 2001 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 262

# Eisteddfod yr Urdd 2001 bellach yn Eisteddfod yr Urdd 2002

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

CAERDYDD a'r Fro

Urdd 2002

Gyda syndod a siom i filoedd y clywyd am benderfyniad Pwyllgor Gwaith yr Urdd, a gyfarfu yn Aberystwyth ar nos Lun, 19 Mawrth, i ohirio cynnal Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni oherwydd y problemau ynglŷn â'r haint clwy traed a'r genau sy'n cerdded y wlad ar hyn o bryd. Mynegodd Jim O'Rourke, Prif Weithredwr yr Urdd ei siom am y penderfyniad gan wybod am yr holl waith caled ac ymroddiad y gwirfoddolwyr lleol dros y tair blynedd diwethaf ond dan yr amgylchiadau doedd dim dewis arall ond gohirio.

Roedd y Pwllgor Gwaith yn argymell y dylid cynnal yr Eisteddfod nawr yng Nghaerdydd a'r Fro yn y flwyddyn 2002 ac mewn cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd 2001 yn Ysgol Plas Mawr, y Tyllgoed ar nos Fercher, 21 Mawrth pleidleisiwyd yn unfrydol ein bod yn gwahodd yr Urdd i gynnal yr Eisteddfod yng Nghaerdydd a'r Fro yn 2002. Felly, edrychwn ymlaen nawr am groesawu'r Ŵyl i'n plith yn 2002 ac yn hyderus y cawn Ŵyl i'w chofio wedi siom eleni.

* * * *

# COFIO HILDA ETHALL



Yn ddisymwth ar nos Lun, 12 Mawrth bu farw Mrs Hilda Ethall. Er gwaethaf y tywydd ofnadwy, daeth llu o gyfeillion o bell ac agos i'w hangladd yng Nghapel Minny Street, Caerdydd, ar ddydd Mawrth yr ugeinfed, a'r cannoedd yn tystio i'r parch a oedd iddi ar draws Cymru. Tristwch mawr inni i gyd oedd na allai'r Parchedig Huw Ethall fod yn bresennol oherwydd gwaeledd, a'r ddau wedi bod yn bartneriaeth mor glos am dros hanner canrif.

Roedd Hilda'n ferch i weinidog a phrifathrawes, ond bu farw ei thad yn ifanc iawn gan adael gweddw a thri o blant, a'r lleiaf, sef Hilda, ond yn ddwy flwydd oed. Ym Mlaendulais yr oedd cartref ei mam. Roedd gwreiddiau Hilda yn ddwfn yn y cwm ac ymhyfrydai yn hanes ei theulu a'i hachau. Wedi dyddiau yng Ngholeg y Barri, bu'n athrawes yng Nghaerdydd, ac yma y daeth o dan ddylanwad ei Gweinidog, y Parchedig R J Jones, Minny Street. Ac ym Minny Street y priododd hi â Huw, gan gyd-weinidogaethu wedyn ym Methania, Rhosamam; Salem, Porthmadog a Siloam, Morfa Bychan; Garnant; Elim, Ffynnon-ddrain; a Bethel, Sgeti cyn ymddeol i Gaerdydd.

Roedd Hilda yn wraig gyhoeddus nodedig. Hi oedd y wraig gyntaf i'w hethol yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr. Fel siaradwraig roedd yn berson arbennig iawn, yn gwbl naturiol a di-rodres, yn gofiadwy o hawddgar er bob amser yn glir ac yn gadarn. Traddododd ei hanerchiad o'r Gadair yn llywydd ym 1984 - eto ym Minny Street - ar y testun "Gorwelion" - gair a gymerodd o enw George Orwell yng nghyd-destun y flwyddyn honno. Oedd, roedd Hilda'n hoffi ac yn deall geiriau!

Ni bu neb yn fwy ffyddlon erioed i'r llu achosion a gefnogai. Ymunodd â Phlaid Cymru yn gynnar, gan frwydro ymhob ymgyrch ac achos dros Gymru a'i hiaith. Carai'r Eisteddfod a'r ddrama, a byddai wrth ei bodd yn mynd gyda Huw i theatrau Llundain, a'r ddau yn ymhyfrydu'n llawen yn llwyddiant ein hactorion ifainc o Gymru ar lwyfan eang. Ni chollai gyfarfod o Gylch Llyfryddol Caerdydd. Hi oedd Llywydd y Cymrodorion eleni. Roedd heddychiaeth, wrth gwrs, yn sylfaenol i'w bywyd hithau a Huw, a chefnogai bob agwedd ar fywyd ei chapel. Am y tro cyntaf ers 46 o flynyddoedd methodd eleni â bod yng ngwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Dyna fesur o'i ffyddlondeb a'i hymlyniad. Roedd yn wraig eithriadol ac eangfrydig, yn wraig lengar a hoffai'r celfyddydau cain. Roedd yn chwaethus ym mhopeth a wnâi a ddywedai.

Yr hyn a drawai pawb wrth gwrdd â hi oedd bod Hilda Ethall yn hoffi pobol a'u cwmni. Gwelai angen, a byddai'n ymateb yn gwbl ymarferol. Rhaid gweithredu - nid digon siarad. Mawr fu ei gofal am eraill. Unwaith y gwelai yn y capel rywrai newydd, âi atyn nhw ar ei hunion i estyn croeso, gan ofalu tynnu aelodau eraill i'r cylch. Fel yr argymhella awdur yr Epistol at yr Hebreaiad, nid anghofiodd letygarwch. A'i chroeso a'i charedigrwydd yn ddihareb ymhlith pawb o'i chydnabod, ffynhonnell y cyfan oedd ei ffydd gadarn fel Cristion.

Bydd bwlch enfawr ar ei hôl! Cydymdeimlwn yn ddwys â Huw ac â'u merched Siân a Rhian, ac â Berwyn, ynghyd â Margaret, chwaer Hilda, yn eu colled fawr.

**Rhiannon Gregory**

# Y Dinesydd

**Ebrill/Mai 2001, Rhif 261. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Gwilym E. Roberts

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Lenna a Harri Pritchard Jones

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mehefin 2001 erbyn 21 Mai at:**
Lenna a Harri Pritchard Jones, 9 Heol Wingfield, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ (Ffôn: 029-2040-4311; E-bost: h.pritchard-jones@ntlworld.com)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754, E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN DANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 22** **Ebrill/Mai 2001**



**Ar Draws**

1. Gradd annymunol i goes hosan (5)
4. Chwilio am y cnaf yn y cynulliad efallai (7)
8. 'Daw dydd _ _ _ _ rhai bychain' (Waldo) (1,3,4,1)
9. Anrhydedd di-ddiwedd i'r wythwr (3)
10. 'Mi brynaf fwthyn unig
 Heb ddim o ___ _ ddôr' (Cynan) (5,2)
12. Mae hon yn swnio fel tipyn o boen! (4)
14. Toes pur yn gwneud i un cloffi rhwng dau feddwl (7)
17. 'A phan ddêl, efe a argyhoedda'r byd o bechod,
 ac o gyfiawnder ac o ____' (S. Ioan) (4)
18. Hanner gorffen wrth gefnu - a mil mewn gormes (7)
20. Creadur gwyllt i'w weld am yn ail yn Amroth (3)
21. A yw Wyn yn glaf, yn llwyr? (2, 7)
23. Mae'n orchwyl i droellu a throellu. (7)
24. 'Wele, Satan a'ch ceisiodd chwi, i'ch ____ fel gwenith (S. Luc) (5)

**I Lawr**

1. 'O! Deffro, deffro, gwisg dy nerth
 O! ___ ___ yr Arglwydd' (John Hughes) (8,5)
2. A oes pentref mwy cysurus na hwn? (6)
3. Mab i Noa wedi torri tegan wrth astudio geiriau (8)
4. A welir epil yr iâr yn lloc y wasg? (3)
5. Tyner ond llawn metel (4)
6. Torri calon a chreu rhywbeth negyddol (6)
7. 'Crwydro ___ ___ ___ ___ ___ ei hun
 A marw lle mynno Duw' (Eifion Wyn) (2, 3, 2, 1,5)
11. Dringwr yn plygu'r gwir o gwmpas (5)
13. Esgyn fry i roi geiriau ar bapur (8)
15. Troi wyth tro ar y rhiniog (6)
19. Esgyn mil am yn ail yn hawdd (4)
22. Gor-droi y graean (3)

**Atebion Croesair 21**

**Ar draws:** 1. Astrus; 4. Drum; 8. Am ehedeg; 9. Addas; 11. Tuth; 12. Adfeilion; 13. Llygada; 15. Tysteb; 18 Aflwydd is y; 19. Bwa; 20. Grug; 21. Libart yn ; 22. Sain; 23. Mintys.

**I lawr:** 1. Aberth; 2. Trefaldwyn; 3. Uchelfa; 5. Roddaist; 6. Meser. 7. Castell; 10. Llin y llyffant; 14. Goleuni; 16. Braint; 17. Rimini; 18. Atgas; 19. Betys.

**Enillydd Croesair 21**

Danfonir y tocyn llyfrau y tro hwn i David Jones, 3 Heol Coed Cae, Yr Eglwys Newydd.

**Cystadleuaeth Ebrill/Mai 2001**: Noder y cyfeiriad newydd ar gyfer y gystadleuaeth: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 5 Mai 2001.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 9 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Lluniau o'r Casgliad Cenedlaethol'. Sgwrs gan Eleri Wyn Evans yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 10 Ebrill**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Ymweliad gan Gymrodorion Caerdydd, yn festri Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, am 7.15 p.m.
**Gwener, 13 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant am 2.00 p.m.
**Mercher, 18 Ebrill**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Cyfarfod Blynyddol, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.
**Iau, 10 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Gweithio fel Caplan.' Sgwrs gan y Parch. Cath Williams, ym Methel, Rhiwbina am 7.30 p.m.
**Sul, 13 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa Ganu dan arweiniad Alun Guy yng Nghapel Beulah, Rhiwbina am 8.00 p.m.
**Llun, 14 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Allan â Ni.' Manylion gan yr Ysgrifennydd: Margaret Evans (029-2075-6525).
**Mawrth, 15 Mai**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd, Elizabeth Williams, yn festri Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, am 7.15 p.m.
**Mercher, 16 Mai**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Owen John Thomas, AC, yn Nhy^'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.
**Llun, 21 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hanesion', yng Nghapel Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.
**Llun, 11 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith. Manylion gan yr Ysgrifennydd: Beryl Jenkins (029-2061-3534).
**Iau, 14 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Dwy Sbectol.' Sgwrs gan y Parch. Cynwil Williams, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth am 7.30 p.m.
**Gwener, 15 Mehefin**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Gwibdaith i Gwm Rhymni.
**Mercher, 20 Mehefin**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Taith Haf.
**Sadwrn, 23 Mehefin**
'Agor y Drws.' Diwrnod i hybu gweithgareddau Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro, yn cynnwys stondinau ac adloniant amrywiol, yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, rhwng 10 a.m. a 4.00 p.m.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:*
*Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ*
*(Ffôn: 2062 8754, E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*
*Mae'r Calendr hefyd ar safle we'r Dinesydd: http://www.dinesydd.uklinux.net/*



## Tristwch yn Amgueddfa Sain Ffagan

Syfrdanwyd pawb yn Amgueddfa Sain Ffagan pan glywyd am farwolaeth annhymig John Owen Huws, Llandaf, Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr yr Amgueddfa tra roedd allan yn loncian ar 19 Mawrth. Gedy weddw a dau o blant, a thri o blant o briodas flaenorol, a chydymdeimlir â nhw oll yn eu colled fawr. Roedd yn 49 oed a bu'n gweithio yn yr Amgueddfa ers 1996. Roedd yn ddarlledwr adnabyddus, yn Olygydd *Llafar Gwlad* ac yn awdur nifer o lyfrau yn ymwneud â llên gwerin a chwedlau ar gyfer plant. Gwelir ei eisiau yn fawr.

## Sylfaenydd yn marw

Ar Ddydd Gŵyl Ddewi bu farw Joseph Cyril Banford yn Llundain yn 84 oed. Fe sefydlodd y cwmni cloddio JCB sef llythrennau ei enw llawn neu (Jac Codi Baw yn Gymraeg) yn 1945 a datblygodd y cwmni dros y blynyddoedd gan wneud ffortiwn iddo. Roedd elw'r cwmni yn 1999 yn £91.2 miliwn ac yn cyflogi tua 4,500 o bobl dros y byd. Mae'r term JCB wedi ei gofnodi yng Ngeiriadur Saesneg Rhydychen ers 1989 yn golygu "offer symud pridd."

## Cydymdeimlir

- â Martin a Philip Hughes ar farwolaeth eu mam Dorothy Lloyd Hughes yn Holme Towers, Penarth ar 25 Chwefror. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 9 Mawrth.
- â Douglas Griffiths, Coryton ar golli ei wraig Maisie ar 10 Mawrth yn Holme Towers Penarth. Bu'r angladd yng Nghapel y Crwys ar 16 Mawrth ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- â theulu'r diweddar Mary Hannah James a fu farw yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ar 12 Mawrth. Bu'r angladd yn Eglwys y Tabernacl, yr Ais ar 19 Mawrth ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- â'r Parchg Huw Ethall a'i deulu, Rhiwbina ar golli ei briod Hilda ar 12 Mawrth. Bu'r angladd yng Nghapel Minny Street ar 20 Mawrth ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- â Gwyn Pritchard a'i deulu Penarth ar farwolaeth ei fam Megan Pritchard, yr Eglwys Newydd. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bryndrain ar 19 Mawrth.

## Y Parchedig D Roy John (1921-2001)

Yn frodor o Aberpennar, treuliodd Roy John y rhan helaethaf o'i fywyd yng Nghaerdydd. Yn raddedig o dair prifysgol - Caergrawnt (mathemateg), Caerdydd (Cymraeg) a Llundain (diwinyddiaeth) - meddai ar ddiddordebau eang a chryn ddysg. Fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar Eglwys Undodaidd West Grove ar Fehefin 18, 1955. Bu'n ddarlithydd mathemateg am gyfnod yn y chwedegau cyn ei benodi yn 1966 yn ddarlithydd mewn Astudiaethau Beiblaidd yng Ngholeg Addysg Caerdydd (Sefydliad Prifysgol Cymru, Caerdydd, bellach) gan aros yno tan ei ymddeoliad. Gydol yr amser cadwodd gysylltiad agos ag Eglwys West Grove ac am gyfnod bu hefyd â gofal capel bach y Bedyddwyr Cyffredinol (Undodaidd) yn y Wig ym Mro Morgannwg.

Er ei ddaliadau Undodaidd bu ganddo yntau ei Drindod o gredoau. Nid amhriodol fyddai cymhwyso ato arwyddair yr Urdd canys credai'n ddwys mewn ffyddlondeb i Dduw, i Gymru (a'r Gymraeg) ac i'w Gyd-ddyn. Nodweddid ei bregethu gan bwyslais ar Dduw ar waith yn y gymuned a chan gryn ymdeimlad â'r cysyniad o gyfiawnder cymdeithasol.

Bu farw ar Fawrth 15, ar ôl cystudd hir. Estynnwn ein cydymdeimlad â Winifred ei wraig, â'r plant Gareth a Delyth, ac â'r wyrion Dafydd, Gwen, Nia, Rhiannon a Siân.

**R.E.H.**

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
**0845 6076070**
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## Rhwng Gwŷr Pentyrch

Bu ffrae fawr ym mhlwyf Pentyrch yn 1861 am fod y ficer a'r ysgolfeistr am gau drws ysgol y pentref ar blant y capeli lleol. Plwyf yn ymestyn o Rydlafar a Chastell Mynach hyd Waelod-y-garth oedd y plwyf ar y pryd, ac yr oedd yn parhau yn ardal Gymraeg ei hiaith yn nechrau'r ugeinfed ganrif, pan oedd 'specimens of the aboriginal Welsh-speaking Cardiffian' wedi mynd yn brin iawn.

Bu gohebu brwd yn *Y Gwladgarwr* yn 1861 ynghylch helynt yr ysgol, a hefyd ynghylch anghyfiawnderau yn y gweithfeydd glo a haearn lleol. Mae Dr R. Elwyn Hughes newydd gyhoeddi llyfr 70 tudalen dan y teitl *Rhwng Gwŷr Pentyrch*, sydd yn cynnwys y llythyrau o'r *Gwladgarwr* a hanes yr helyntion, ond sydd hefyd yn cynnwys pob math o wybodaeth ddifyr am fywyd yr ardal, ac yn enwedig y bywyd diwylliannol Cymraeg, yn y 19eg ganrif.

Mae pob math o dameidiau blasus yn y llyfr, gan gynnwys rhai penillion o gân a gyhoeddwyd yn 1863 'ar hanes helfa y llwynog a ollyngwyd ar Glawdd Shôn ac a laddwyd yn Sophia Gardens Caerdydd gan gŵn Pentyrch'. Cyhoeddiad preifat gan Dr Hughes yw'r llyfr a 100 copi yn unig a argraffwyd. I gael copi, cysylltwch ag ef ar 2089 0659.

## Dathlu ei hanner cant!

Ar 6 Chwefror dathlwyd hanner can mlwyddiant ers sefydlu'r Parc Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru sef Parc Cenedlaethol Eryri. Ers hynny agorwyd dau barc cenedlaethol arall sef Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn 1952 a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 1957.

## Noson Wobrwyo Bafta Cymru

Fe'i cynhelir ar 3 Mehefin yn yr Arena Rhyngwladol yng Nghaerdydd gyda'r actor Stifyn Parry o'r Rhos, Wrecsam yn arwain y noson.

## Gwasanaeth Bws Dŵr yn y Bae

Ers Ebrill diwetha sefydlwyd gwasanaeth bws dŵr o gwmpas Bae Caerdydd sy wedi dod yn boblogaidd hefo ymwelwyr i'r ardal. Hefyd mae gwasanaeth rheolaidd yn teithio rhwng y Bae a'r Marina ym Mhenarth. Eisioes mae dros 25,000 o bobl wedi teithio ar y Bws dŵr ers sefydlu'r fenter. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r amserlen ac ati ffoniwch 029 2048 8842 neu ar y rhyngrwyd - www.imagesofpenarth.co.uk

## Cystadleuaeth Canwr y Byd

Eleni, cynhelir Cystadleuaeth "Canwr y Byd" yn Neuadd Dewi Sant dros y cyfnod Mehefin 10-16. Mae tua 700 o ganwyr ifanc eisioes wedi gwneud cais am gymryd rhan yn y gystadleuaeth ar ac ôl didoli'r ceisiadau credir bydd tua phum cant o gantorion wedi ymgiprys am y 25 o lefydd yn y gystadleuaeth. Cynnigir £10,000 fel y wobr gyntaf yn y brif gystadleuaeth a £2,000 o wobr yn y gystadleuaeth canu Lieder. Huw Edwards, darllenydd newyddion y BBC, fydd yn cyflwyno'r cantorion yn ystod yr wythnos a darlledir y gystadleuaeth yn fyd eang.



## Ymweliad Bon Jovi â Chaerdydd

Pan ymwelodd y grŵp Roc enwog Bon Jovi â Chaerdydd ym Mehefin 1995 daeth dros 40,000 i wrando arnyn nhw. Ar 17 Mehefin byddan nhw'n dychwelyd i Gaerdydd i gadw Cyngerdd yn Stadiwm y Mileniwm a disgwylir gweld y lle yn llawn ar gyfer yr achlysur hwn.




## Nofel newydd - "Yr Ias yng Ngruddiau'r Rhosyn"

Yn ddiweddar cyhoeddodd Gwasg Carreg Gwalch nofel gan y cyn-ddarlledwr Gwyn Llewelyn, Ynys Môn, ond a fu'n byw am flynyddoedd gyda'i deulu yng Nghroesewrlwys cyn dychwelyd i'r Gogledd. Bellach fe yw Swyddog Cyfathrebu Cyngor Sir Ynys Môn. Mae mab iddo sef Siôn Llewelyn yn berchennog Hostel Bacpacwyr yn Stryd Neville, Treganna sy'n croesawu pobl ifanc yn bennaf sy'n teithio o gwmpas y byd.

## Apêl y Groes Goch

Cynhelir wythnos y Groes Goch ym mis Mai ac apelir am gasglyddion o dŷ i dŷ ymhob rhan o Gymru er mwyn hybu'r gwaith hynod bwysig a gyflawnir ganddyn nhw. Os ydych chi am helpu yna cysylltwch â'r Cydlynydd Codi Arian Cymunedol ar 01686 626663.

## Plant mewn profedigaeth

Mae Gofal Mewn Galar Cruse Cymru wedi darparu dau lyfryn pwrpasol, un i blant ac un i athrawon sy'n delio â'r dasg o gynorthwyo plant i ddod i dermau â cholli rhywun sy'n agos atyn nhw. Enw'r llyfryn ydy "Pan fo rhywun yn marw" a gellir archebu'r llyfrau am £4 sy'n cynnwys cludiant gan Gofal Mewn Galar Cruse Cymru, Tŷ Energlyn, Heol Las, Caerfffili CF83 2WP. Cysylltwch â Nest Evans am ragor o wybodaeth a chyngor 029 2089 0661.

## Cinio Dathlu UCAC

Y llynedd ar 14 Rhagfyr 2000 roedd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn drigain oed a bwriedir, fel rhan o'r dathliadau, gynnal Cinio Dathlu yn ystod y Gynhadledd Flynyddol. Fe'i cynhelir ar nos Wener, 11 Mai 2001 yng Ngwesty'r Belle Vue, Aberystwyth a'r gŵr gwadd fydd G Wyn James, Cyn Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC. Dilynir y cinio gyda Noson o Farddoniaeth yng nghwmni Emyr Davies, Ceri Wyn Jones, a Tudur Dylan Jones. Cost y cinio fydd £18 a gellir archebu tocyn drwy gysylltu â Carol Jenkins, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ. Ffôn: 01970 615577.

## Ffilmio yn Seland Newydd

Mae Matthew Rhys yr actor ifanc o Gaerdydd a chyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf wedi cael rhan yn y ffilm "The Lost World" yn seiliedig ar nofel gyffrous Syr Arthur Conan Doyle, a bu allan yn Seland Newydd yn ffilmio yn ddiweddar.

## Tafarn y Flwyddyn

Ar ôl bod ar agor am lai na blwyddyn enillodd "Y Cayo Arms" ar Heol y Gadeirlan yr anrhydedd o'i dyfarnu yn "Dafarn y Flwyddyn" gan CAMRA sef y sefydliad sy'n ymgyrchu dros gwrw go iawn. Alun Davies, cyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Llanhari ydy rheolwr y dafarn. Llongyfarchiadau iddo fe a'i staff ar yr anrhydedd a ddaeth i'w rhan.

## Caerdydd ar y brig!

Yn ôl Swyddfa'r Tywydd, Caerdydd oedd y lle poethaf ym Mhrydain ar 7 Mawrth pan gododd y tymheredd i 17 gradd gan guro llefydd fel Athen, Barcelona, Madrid a Rhufain! ond erbyn trannoeth oedd y tymheredd wedi cwympo i 13 gradd! - "Digwyddodd, darfu, megis seren wib."!

## Clwb Teithio '91

Ers rhyw ddeng mlynedd bellach bu Clwb Teithio '91 yn crwydro Prydain a'r Cyfandir. Yn ystod y cyfnod yma trefnwyd rhyw bymtheg o deithiau llwyddiannus gan Aled Evans, fel atodiad i weithgareddau mwy ffurfiol Cymdeithas Ddrama'r Crwys. Dros y cyfnod yma cafwyd cwmni rhyw naw deg o eneidiau hoff cytun ac fe ddaeth pob un yn ôl yn ddiogel! Erbyn hyn mae aelodau o fewn yr Eglwys ac o'r tu allan yn aml yn holi am leoliad y daith nesaf. Prawf o lwyddiant ac ansawdd digymar teithiau y degawd diwethaf.

Bellach mae llawer o'r trefniadau yn nwylo profiadol cwmni teithio y Seren Arian o Gaernarfon ac mae ei wasanaeth heb ei ail.

Aeth y daith ddiweddara' hyd barthau Llundain dros gyfnod bwrw Sul, Ionawr 26-28. Sicrhawyd gwesty cyfforddus yn ardal Westminster, rhyw dafliad carreg o New Scotland Yard ar un llaw a Central Hall, Westminster ar y llaw arall.

Tu mewn i'w gwesty roedd cofeb ar un o'r muriau yn atgoffa'r ymwelydd fod y safle gwreiddiol wedi ei gysegru gan Sant o Gymro yn dwyn yr enw Ermin. Ddydd Sadwrn aeth pawb i'w ffordd, rhai i gyfarfod teulu neu ffrindiau, eraill i grwydro neu ymweld ag orielau neu amgueddfeydd. Gyda'r hwyr daeth cyfle i weld ambell sioe, yn eu plith "Chicago", "The Beautiful Game", "Les Miserables", "Lion King", "Fallen Angels" a "Mousetrap" - gwledd i'r llygad ac i'r glust.

Fore Sul bu rhai yn crwydro'r 'palmentydd aur' tra aeth eraill i wasanaethau mewn eglwysi lleol. Galw yn y Windsor Brenhinol ar y ffordd adref. Rhyfeddu at ei urddas a'i rwysg ac yn wir ei leoliad delfrydol ar lannau'r Tafwys.

Bydd Cwmni'r Seren Arian yn crwydro Gwledydd Llychlyn ym mis Awst. Cysyllter ag Aled Evans am fanylion pellach, rhif ffôn 2049 4376.

## Cyfrifiad 1990 yn yr Unol Daleithiau

A ninnau yng Nghymru ar fin cael Cyfrifiad, diddorol ydy darllen rhai ffeithiau a ddaeth i'r amlwg wedi cyfrifiad 1990 yn yr Unol Daleithiau. Yn ôl y Cyfrifiad hwnnw oedd 275,377 miliwn yn byw yn y wlad. Roedd 2,033,893 wedi hawlio tras Cymreig. Yng Nghaliffornia oedd y nifer mwyaf o Americanwyr Cymreig yn byw, sef 238,134 a'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn byw o gwmpas Los Angeles a San Ffransisco. Pennsylvania oedd y nesaf gyda 221,964 a'r drydedd uchaf oedd Ohio gyda 165,494. Mae 'na gymdeithasau Cymraeg ymhob talaith ond am Alabama, Alaska, Arkansas, Hawaii, Indiana, Kentucky a Louisiana. Roedd llai na 3% o Americanwyr Cymreig yn hawlio eu bod yn siarad iaith heblaw am Saesneg.

## Y Proms Cymreig 2001

Eleni cynhelir y Proms Cymreig yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd rhwng y 19-28 Gorffennaf ac mae Owain Arwel Hughes, sylfaenydd yr Ŵyl a'i chyfarwyddwr artistig wedi paratoi rhaglen gyffrous unwaith eto. Sylfaenwyd yr Ŵyl bymtheng mlynedd yn ôl ac mae wedi mynd o nerth i nerth ers hynny.

## Apêl Arch Noa

Mae'r ymgyrch i godi arian i adeiladu Ysbyty Plant i Gymru yng Nghaerdydd yn mynd rhagddi yn ardderchog ac eisioes codwyd £2.5 miliwn mewn deng mis sef bron hanner y nôd o bum miliwn i gwblhau'r rhan gyntaf o'r cynllun adeiladu. Os nad ydych chi wedi cefnogi'r apêl eto beth am anfon siec yn daladwy i "Apêl Ysbyty Plant i Gymru" at Swyddfa'r Apêl, Lakeside Suite, Ysbyty'r Brifysgol, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW.

## Ymddeoliad Prif Glerc y Cynulliad

Rhoddodd Dafydd Elis Thomas deyrnged haeddiannol i waith John Lloyd, Pen y Lan fel Prif Glerc y Cynulliad mewn cyfarfod yn y Cynulliad ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Y Clerc newydd ydy Paul Silk a fu'n glerc yn y Tŷ Cyffredin yn Llundain ers pum mlynedd ar hugain cyn ei benodi i olynu John Lloyd.

## Seremoni arbennig i lawr yn y Bae

Ddydd Gŵyl Ddewi yn ogystal â chroesawu Bertie Ahern Taoiseach Senedd De Iwerddon i'r Cynulliad cafodd Dafydd Elis Thomas ac Edwina Hart amser i dorri'r dywarchen gyntaf wrth ddechrau ar y gwaith o godi siambr ac adeilad addas ar gyfer y Cynulliad fydd yn costio tua £26 miliwn.

## Marw Prifathrawes

Yn Ysbyty'r Felindre, Yr Eglwys Newydd, ar 27 Chwefrof bu farw Lynne Smith, prifathrawes ysgol Llancarfan yn y Fro. Bu'r angladd yn Eglwys Llancarfan ar 7 Mawrth ac yn dilyn yn Amlosgfa Llangrallo. Cydymdeimlir â'i theulu yn eu colled.

## Medalau i Bedwar Sgowt Dewr

Yn ddiweddar cynhaliwyd seremoni arbennig ym Mhlas yr Arglwydd Faer yn Heol Richmond er mwyn cydnabod dewrder pedwar sgowt ifanc o ardal Rhiwbina a achubodd fywyd un o'u cyd sgowtiaid a syrthiodd i mewn i nant ar fynydd yn Ardal y Llynnoedd tra ar daith antur. Llwyddon nhw i dynnu'r sgowt o'r nant a rhoi cymorth cyntaf iddo yn ogystal â galw am gymorth y Tîm Achub Bywyd ar Fynydd. Cyflwynwyd medalau Cymdeithas y Sgowtiaid i Huw Tyler (Ysgol Gyfun Glantaf), David Walsh (Ysgol Gyfun Glantaf), Ian Newberry (Ysgol Gyfun Llanisien) a Daniel McLoughlin (Ysgol Gyfun Yr Eglwys Newydd) gan Russell Goodway, Arglwydd Faer Caerdydd a longyfarchodd y pedwar am eu dewrder.

## Cael blas ar ddwy iaith yn Nhafarn yr Owain Glyndŵr

Enillydd cyntaf Cystadleuaeth Bwydlen Ddwyieithog y mis a drefnir ar y cyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Blas ar Gymru oedd tafarn yr Owain Glyndŵr ynghanol Caerdydd. Bwriad y gystadleuaeth ydy tynnu sylw at ddefnydd arbennig o ddwyieithrwydd mewn pob math o fwydlenni. Bydd enillydd pob mis yn derbyn tystysgrif a bydd y person sy'n enwebu'r bwyty buddugol yn derbyn copi Cymreig o'r gêm boblogaidd "Monopoli".

Am ragor o fanylion ynglŷn â'r gystadleuaeth cysylltwch ag Adran Farchnata Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 029 2087 8000.




Glyn White (Rheolwr Cyffredinol) gyda John Walter Jones (Prif Weithredwr BYIG)

## Llongyfarchiadau

- i Morys Gruffudd a Meleri MacDonald, Llwynfedw ar enedigaeth eu mab Owain Hedd ar 12 Chwefror a brawd bach i Erin Mared ac ŵyr i Elvey a Delyth MacDonald, Llanrhystud a Tom ac Ann Griffiths, Abergwaun.

- i Jason a Catherine Lugg ar enedigaeth merch Mali Hedd yn Ysbyty'r Brifysgol ar 23 Chwefror.

- i Geraint Tilsley, Bae Caerdydd, ŵyr y cyn Archdderwydd Gwilym Tilsley ar ei ddyweddïad â Miriam Jones, y Gaiman, Dyffryn Camwy, Patagonia.

- i Rob Sandall a Nia Dafydd, Rhiwbina ar enedigaeth eu mab Dafydd Rhys.

- i Rhys a Nia Evans, Parc y Rhath, ar enedigaeth eu mab Aled Huw sef brawd bach i Ifor Wyn ac ŵyr arall i John ac Anne Rees, Caerdydd ac Elfen a Mair Evans, Licswm.

## Agoriad Swyddogol i Ysgol Gymraeg yn y Barri

Yn ystod mis Mawrth cafwyd agoriad swyddogol i Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant, y Barri gan Brifweinidog y Cynulliad, Rhodri Morgan a Jane Hutt AC. Sefydlwyd yr ysgol nôl yn 1996 dan yr enw Ysgol Gymraeg Newydd ar gampws Ysgol Sant Curig ond ers mis Medi mae'r ysgol wedi symud i'w safle presennol ac yn gwasanaethu Dwyrain y Barri a Rhws a Sili a Gwenfo. Glenna Evans ydy'r brifathrawes ac ar hyn o bryd mae 72 o ddisgyblion yn yr ysgol. Pob llwyddiant i Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant.

## Mudiad Merched y Wawr yn ddig

Cynhaliwyd cyfarfod cenedlaethol o Fudiad Merched y Wawr yn Aberystwyth ar 10 Chwefror a mynegodd aelodau'r Mudiad eu dicter a'u siom ynglŷn â ffurflenni swyddogol Cyfrifiad 2001. Gofynnwyd i'r saith mil o aelodau i sgrifennu lythyr at y Cynulliad a Swyddogion y Cyfrifiad yn mynegi eu teimladau ar bwnc ffurflenni'r cyfrifiad ac argymhellwyd i'r aelodau dynodi eu cenedl trwy ychwanegu blwch ar y ffurflen gyda'r geiriad Cymro/Cymraes arno.

## Cwmni Strata Matrix yn dathlu Gŵyl Ddewi

Sefydlwyd Strata Matrix y cwmni cysylltiadau cyhoeddus dwyieithog cyntaf yng Nghymru yn 1979. Mae swyddfeydd gan y cwmni yng Nghaerdydd ac Aberystwyth ac eleni am y tro cyntaf erioed cafodd holl weithwyr y cwmni ddiwrnod o wyliau i ddathlu Gŵyl Ddewi.


## Canolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru Bangor am ddilysu cyfeiriadau Cymraeg

Bwriad y dilysu ydy cynnig cymorth i sicrhau bod unrhyw enwau Cymraeg ar dŷ neu ffarm neu ardal ac ati wedi eu sillafu'n gywir. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gwenno Roberts, Canolfan Bedwyr ar 01248 383293.

## Brithlenni (Tapestrioedd) Hanesyddol

Yn ddiweddar sicrhaodd yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan dri brithlas hanesyddol yn Sotheby's yn Llundain am £23,518 drwy dderbyn cymorth ariannol gan gronfa Casgliadau Celf Cenedlaethol. Arferai'r brithlenni hyn hongian ar waliau Castell Sain Ffagan yn y 19 ganrif a felly byddan nhw'n dychwelyd i'w hen gartre.

## Aelod newydd y Cynulliad



Oherwydd salwch gorfu i Christine Humphreys, Aelod y Cynulliad gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol ymddiswyddo a chymerwyd ei lle gan Eleanor Burnham ar 1 Ebrill. Mae hi'n siarad Cymraeg ac yn dod o Gynwyd ger Corwen yn wreiddiol ond bellach yn byw yn Roset ger Wrecsam.

## Llwnc destun yn "Y Savoy" Llundain

Cynhaliwyd gwledd Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Savoy, Llundain dan nawdd Cymry Llundain a Llywydd y noson oedd Gaenor Howells, merch Arglwydd Geraint o Bonterwyd a chynigwyd y llwnc destun i goffau Dewi Sant gan Ffion Hague o Riwbina gynt. Un o'r siaradwyr oedd Huw Edwards, mab Hywel Teifi Llangennech, a darllenydd y Newyddion Chwech ar y BBC.

## Aduniad Rhydfelen

Mae Aduniad yn cael ei drefnu ar gyfer y flwyddyn a aeth i Ysgol Rhydfelen yn 1973 ac i unrhyw un a ymunodd â'r flwyddyn ar hyd y ffordd. Rydym yn awyddus i gysylltu â hen ddisgyblion y flwyddyn ac wedi cylchlythyru cynifer ag sy'n bosibl. Lleoliad yr aduniad yw Clwb Amigos, 11 Windsor Place, Caerdydd ar nos Sadwrn, 5 Mai o 8 o'r gloch ymlaen. Am ragor o fanylion cysylltwch â Nest Evans neu Huw Jenkins ar 029 2034 3113 neu 029 2052 9840.

## Matthew Rhys yn Lawnsio Gwefan

Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin wedi lawnsio gwefan newydd sbon sy'n rhoi gwybodaeth am weithgarwch y Gymdeithas a'r cysylltiad rhwng Cymru a'r Wladfa ym Mhatagonia.
Cyfeiriad y wefan yw http://www.btinternet.com/~Rhoshelyg/CCA/

Lawnsiwyd y wefan gan yr actor Matthew Rhys o Gaerdydd yn Aberystwyth. Y mae gan Matthew berthnasau yn y Wladfa a bu yno ar ymweliad am y tro cyntaf y llynedd. Yn ôl Matthew "profiad bythgofiadwy oedd teithio Patagonia a phrofi ei chroeso, a thrwy'r wefan edrychaf ymlaen at gadw mewn cysylltiad â'm ffrindiau newydd cyn dychwelyd yno eto am dro." Lluniwyd y wefan gan Gwyn Jones, brodor o Ddyffryn Conwy sydd gyda'i wraig Monica yn cadw Gwesty Tywi yn y Gaiman, Chubut.



Mathew Rhys yn lawnsio'r gwefan
*Llun: David Parry Jones*

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

### Eglwys Dewi Sant, Caerdydd

Cafwyd noson fythgofiadwy yn Eglwys Dewi Sant wrth ddathlu Gŵyl Ddewi eleni. Canwyd yr offeren newydd, Offeren Dewi Sant, am y tro cyntaf. Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Barry Morgan oedd yn llywyddu ac yn traddodi'r bregeth. O dan arweiniad y Ficer, y Parchedig Meurig Llwyd, comisiynodd yr eglwys y cerddor ifanc Geraint Lewis i gyfansoddi offeren a bu aelodau Dewi Sant yn ymarfer y gwaith yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror. Bu'n brofiad ysbrydol i'r aelodau gydweithio gyda Geraint a chael rhannu ei weledigaeth wrth briodi geiriau'r Offeren â'r gerddoriaeth. Cafwyd datganiad gwefreiddiol ar yr organ gan Huw Tregelles Williams cyn ac ar ôl y gwasanaeth. Daeth y noson i ben gyda phryd bys a bawd yn y neuadd.

Alla i ddim meddwl am well ffordd o ddathlu Gŵyl ein nawddsant na chael bod gyda ffrindiau yn ein cartref ysbrydol yn gwneud y pethau bychain. Gobeithio bod y gwasanaeth wedi ysbrydoli pawb a fu'n bresennol a'n bod wedi cychwyn traddodiad newydd yn y brifddinas wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi fel hyn.

### Bethel, Rhiwbina

Ar ôl disgwyl yn eiddgar amdano mi ddaeth y llyfr emynau newydd *Caneuon Ffydd* i law ac ni chawsom ein siomi. Mawr yw ein diolch i nifer dda o aelodau a chyfeillion Bethel am gyfrannu copïau o'r gyfrol hon yn anrheg i'r capel.

Mi ddaeth *Caneuon Ffydd* i law mewn da bryd ar gyfer y Suliau pan oeddem yn dathlu gŵyl ein nawddsant. Ac fel rhan o'r dathlu eleni mi aeth aelodau Bethel i swpera yng Ngwesty'r Quality, Tongwynlais.

Nos Lun, 12 mawrth, croesawyd cynrychiolwyr eglwysi Cylchdaith Morgannwg o'r Eglwys Fethodistaidd i Fethel i drafod materion sy'n ymwneud â'r gylchdaith. Roedd y cyfarfod yng ngofal y Parchedig Jefferey Morgan, Llanelli a'r Parchedig Ddoctor Ian Morris, Pontarddulais. Cymerwyd y rhannau defosiynol gan weinidog Bethel, y Parchedig Evan Morgan.

Llongyfarchiadau i Ken a Hazel Williams, Rhiwbina. Ddydd Sul, 18 Mawrth, mi roedden nhw'n dathlu pen-blwydd eu priodas 53 o flynyddoedd yn ôl.

### Priodas

Ym Methel, Rhiwbina, Mawrth 23, priodwyd Mrs Nerys Davies, o'r Mynydd Bychan â Mr Tom Smith o Dywyn, Meirionnydd. Gwasanaethwyd gan y Parchg Cynwil Williams. Pob dymuniad da iddyn nhw.

### Minny Street, Caerdydd

"Pob dymuniad da i'r Parchedig Eifion Powell : yn dilyn ei ymweliad diweddar â'r ysbyty mae bellach yn disgwyl llawdriniaeth yn y dyfodol agos a gobeithiwn y caiff adferiad llwyr a buan."

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theuloedd dau o'n haelodau fu farw ym mis Mawrth, **Mrs Hilda Ethall** (Rhiwbina) a **Mr Hubert S Parry** (Penylan).

Bu plant yr Ysgol Sul yn dathlu Gŵyl Dewi mewn gwasanaeth arbennig for Sul, Mawrth 4ydd. Ynghyd ag eitau amrywiol gan y plant cafwyd anerchiad gan Mr Alun Treharne. Soniodd am ychydig o hanes Dewi Sant gan arwain at bwysigrwydd "gwneud y pethau bychain" a chyflwyno y syniad o gwpan gras UNICEF i'r gynulleidfa - cyfle i bawb gyfrannu ychydig bob dydd fel, pan ddaw y cyfan at ei gilydd, bydd gennym rodd sylweddol tuag at elusen yr Eglwys am y flwyddyn.

Y nos Fawrth ddilynol, daeth nifer fawr ynghyd yn Neuadd Aberdar i fwynhau cwmni ein gilydd ynghyd â phryd blasus tu hwnt. Yna, cawsom gyfle i wrando ar Peter Griffiths yn rhoi ychydig o hanes ei fagwraeth a'i yrfa i ni gyda'i briod, Gillian, yn cyflwyno darnau o farddoniaeth yn ystod yr anerchiad i danlinellu ambell i sylw.

### Eglwys y Crwys

Bu'r Eglwys yn ôl ei harfer ym Mis Mawth yn dathlu Gwyl ein nawddsant. Dechreuodd y dathliadau Nos Wener, 2 Mawrth pan gyfarfi aelodau y Gymdeithas o dan gadeiryddiaeth George P. Owen yng Ngwesty'r Manor Park i fwynhau cinio Cymreig. Maureen Rhys a John Ogwen oedd y gwahoddedigion a chawsom gan John noson ddihafal o ddiddanwch pur. Fore Sul canlynol cafodd aelodau iau yr Ysgol Sul gyfle i ddiolch am fywyd a gwaith Dewi Sant. Yn yr un gwasanaeth derbyniwyd rhodd o liain newydd i'w ddefnyddio ar fwrdd y cymun gan y Dr a Mrs Hywel Griffiths. Yn y hwyr daeth cyfle i ieuenctid yr Eglwys i gyfrannu at yr addoliad, gyda pherfformiad graenus o'r ddrama 'Ni a Nhw'. Cyfieithiad a chynhyrchiad George Owen o'r ddrama Saesneg 'Them and Us'.

Nos Lun, 5 Mawrth, cafodd y Grŵp Merched noson ddifyr yn dysgu am osod blodau o dan law y cyfarwydd y Parch Kevin Davies. Tro Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa oedd cymdeithasu brynhawn Mercher, Mawrth 7. Gwahoddwyd i'w plith rai o aelodau'r Eglwys sy'n methu mynychu y gwasanaethau arferol ar y Sul. Cafwyd prynhawn bendithiol yn gwrando ar anerchiad byr gan y Gweinidog cyn mwynhau 'te prynhawn' yn y festri.

## Cymanfa Ganu yn Rhiwbina



Er i Eisteddfod yr Urdd 2001 cael ei gohirio tan y flwyddyn nesa penderfynnwyd dal i gynnal Cymanfa Ganu Plant Ysgolion Cynradd Gogledd Caerdydd yng Nghapel Beulah, Rhiwbina ar Nos Wener, 30 Mawrth. Arweinydd y Gymanfa hynod lwyddiannus hon oedd Alun Guy, gyda Dr Alun Jones wrth yr organ. Cymerwyd rhan gan ysgolion Ton-yr-ywen, Coed Glas, Llanisien Fach, Rhiwbina, a'r Wern. Falmai Griffiths, Rhiwbina oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson a gwnaethpwyd elw sylweddol tuag at Gronfa'r Eisteddfod.

## Cyngerdd yn Rhiwbina

Cynhaliwyd Cyngerdd yn Neuadd Goffa Rhiwbina ar nos Sadwrn, 31 Mawrth dan nawdd Pwyllgor Codi Arian Gogledd Caerdydd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2002. Roedd y neuadd yn llawn a chafwyd cyngerdd i'w gofio. Cymerwyd rhan gan Gôr Caerdydd dan arweiniad Gwawr Owen; Cantorion Ysgol y Wern dan arweiniad Rhian Jones; Aled Hall y tenor adnabyddus a swynodd pawb gyda'i lais ardderchog; Abigail Sara ac Elen Evans; Gwenno Dafydd, Heulwen Thomas a Mark Cheeke. Cyflwynydd y noson oedd Siân Thomas y darlledwraig adnabyddus.

# Glantaf

### Siarad Cyhoeddus


Llongyfarchiadau i aelodau tîm siarad cyhoeddus Glantaf - Carys Jones, Huw Hopcyn Thomas a Catrin Gwynn Williams, ar ennill rownd gynderfynol Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari i Ysgolion Uwchradd Cymraeg y De-Ddwyrain. Enwebwyd Carys Jones fel gwrthwynebydd gorau'r noson a Catrin Gwynn Williams fel y cadeirydd gorau. Pob hwyl iddynt yn y rownd derfynol yn erbyn Ysgolion De-Orllewin Cymru. Diolch i Mrs. Eleri Jones am eu hyfforddi.



Catrin Williams, Huw Hopcyn Thomas a Carys Jones

### Ymateb i Ddaeargryn

Ar ôl gwylio'r lluniau erchyll o ddaeargryn yr India ar y teledu penderfynodd Hywel G. Evans o flwyddyn 13 fod rhaid iddo wneud rhywbeth i helpu. Aeth ati i drefnu gwasanaeth ar gyfer y chweched dosbarth yn sôn am yr angen. Gyda help Nick Walton trefnodd gasgliad o gwmpas yr ysgol. Ymatebodd pawb yn ardderchog ac erbyn hyn mae dros £900 wedi'i gasglu. £1,500 yw'r nod a bwriedir anfon y siec at apêl y Groes Goch.



Nic a Hywel

### Trip Addysg Grefyddol i Lundain

Yn oriau mân y bore ar y pedwerydd ar ddeg o Ebrill mentrodd 60 o ddisgyblion TGAU a 5 athro ar fws moethus i Lundain. Trip yr adran Addysg Grefyddol ydoedd i ymweld ag arddangosfa yr Holocaust yn yr 'Imperial War Museum'. Ond cyn hynny, roedd llawer o bethau i'w gweld. A pha ffordd well i weld Llundain mewn byr amser na'r 'London Eye'. Profiad gwych, ond piti mai dim ond toeau yr holl adeiladau enwog a welsom!

Yna, ymlaen â ni i'r amgueddfa i weld yr arddangosfa wefreiddiol. Cawsom dapiau i'n tywys o gwmpas â'r rhyddid i ddarllen a gwylio popeth. Er mor ddiddorol, roedd yn brofiad dirdynnol. Roedd llawer ohonom o dan gryn emosiwn o brofi'r sefyllfa druenus. Daeth dioddefaint yr Iddewon 60 mlynedd yn ôl yn fyw i ni heddiw, bobl ifanc Caerdydd. Yn sicr, fydd neb yn anghofio hynny. Hoffwn ddiolch i'r athrawon am roi'r cyfle i ni fynd i weld yr arddangosfa fythgofiadwy hon.

**Carys Osborne**

### Ymweld â Gwlad Pwyl

Dychmygwch am eiliad 33 o blant yn treulio pob diwrnod o'u bywydau ar lawr uchaf ysgol yn Nwyrain Ewrop. Dychmygwch orfod byw yno mewn tlodi- heb rieni, heb lawer o le, heb anrhegion a heb arian fel chi a fi.

Yna dychmygwch 9 o bobl ifanc brwd o Gymru yn mynd allan yno mewn ymgais i wneud ansawdd bywydau'r plant yma'n well. Wel, dyna'n union beth mae 9 ohonom yn cynnwys Ellie Carey a fi o ysgolion amrywiol yn Ne Cymru (Glantaf, Gwyr, Llanharri a Chwm Rhymni) yn mynd i geisio ei wneud dan drefniant yr Urdd. Ar y pedwerydd o Ebrill rydym ni'n teithio i Wlad Pwyl er mwyn ceisio datblygu cyfeillgarwch â'r plant amddifad yma. Yn ystod ein hwythnos yno rydym yn mynd i wneud nifer o weithgareddau megis peintio, garddio, chwarae, dawnsio, perfformio- a beth bynnag y medrwn ei wneud er mwyn gwella bywydau bach unig y plant.



Gwenllian ac Ellie

Ers bron i bythefnos mae pob ysgol wedi bod yn ceisio codi arian er mwyn prynu anrhegion i'r plant allan yno. Ein targed oedd £500 ac rydym ni yng Nglantaf wedi cyrraedd £800 yn barod! Gwnaethom hyn drwy drefnu nifer o weithgareddau megis gwisg anffurfiol, cystadleuaeth pêl-rwyd, gofyn i'r athrawon wisgo i fyny mewn gwisg tedi a cherdded o amgylch yr ysgol â bwcedi lliwgar. Ein targed nawr yw £1000.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at fynd i Wlad Pwyl. Mi fydd yn brofiad bythgofiadwy rwy'n siwr a gobeithio yn fawr y byddwn yn medru croesawu'r plant amddifad o Wlad Pwyl i Gymru y flwyddyn nesaf.

**Gwenllian Glyn**

### Mawrth y cyntaf yng Nglantaf

Mae Ysgol Glantaf bob blwyddyn yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Y flwyddyn yma fe arhoson ni yn yr ysgol yn gwneud gweithgareddau oedd yn addas i bawb. Fe ddechreuon ni yn y bore drwy gael gwasanaeth. Roedd merched a bechgyn yn canu ac roedd band jazz hyn yr ysgol yn perfformio. Fe ganoddd Lowri Siôn unawd ac roedd dau unawd arall hefyd. Yn y gampfa roedd sioe dalentau yn cael ei chynnal. Roedd hefyd fersiwn Gymraeg o 'The Weakest Link' yn cael ei chynnal. Roedd yn cael ei galw yn 'Y Drwg yn y Caws'. Roedd cystadlaethau dawnsio disgo, sgets a chwibanu yn ogystal ag un act syrcas. Yn ystod y prynhawn roedd Gang Bangor yn darparu'r gerddoriaeth ac roedd merched yn dawnsio. Roedd Big Leaves yn perfformio yn ogystal â band yr ysgol, Pheneticish, yn canu. Fe gafodd pawb hwyl ac rwy'n edrych ymlaen at Fawrth y cyntaf 2002.

**Gethin Halloway**

# Plasmawr

## Dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr

Cafwyd cyfle i ddathlu dau beth ar Fawrth 1af eleni; Diwrnod Nawddsant Cymru a Diwrnod y Llyfr Cenedlaethol. Dechreuwyd y diwrnod â gwasanaeth ysgol lle cafodd disgyblion ac athrawon y cyfle i ddangos eu talentau! Cafwyd perfformiad gan y grwp pres, sgets gan ddosbarth cofrestru yn yr ysgol, côr o athrawon a chafodd nifer o blant eu gwobrwyo am eu cynnydd darllen ers dechrau'r flwyddyn. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd iaith gan gyfeirio at y Flwyddyn Ieithoedd.

Yn ystod y diwrnod cafwyd nifer o weithgareddau - cystadleuaeth yn ymwneud â llyfrau, disgyblion yn darllen am lyfrau a barddoniaeth ar y We a darllenodd blwyddyn 9 yn noddedig yn y gwersi Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal â hynny fe gafodd yr athrawon fwyd Cymreig traddodiadol amser cinio - blasus iawn! Codwyd £5 y pen ac mae'r arian yn mynd tuag at Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2002.

## Gweithdy Barddoniaeth

Mae bod yn fardd yng Nghymru yn wahanol i fod yn fardd mewn unrhyw wlad arall. Profwyd hyn gan Twm Morys a'r Prifardd Iwan Llwyd pan ddaethant i Blasmawr i gynnal gweithdy barddoniaeth. Siaradodd y ddau yn fanwl am eu hymweliad â De America. Yno fe benderfynon nhw, yn hytrach na chadw dyddiadur am y daith, i ysgrifennu cerddi yn sôn am yr hyn a welsant, ac enwi'r gyfrol yn 'Eldorado'.

Roedd y ddau'n frwdfrydig iawn am y gyfrol gan ddyfynnu ohoni'n gyson. Fe wnaeth un gerdd gydio yn nychymyg y disgyblion; cerdd gan Twm Morys sy'n cyflwyno stori a hanes pobl a ddiflannodd o'u cartrefi heb rybudd nac esboniad. Yn syth ar ôl iddo orffen ei darllen, disgynnodd distawrwydd dros y grwp o ddisgyblion blwyddyn 9. Ar ôl gwrando arnynt yn sôn am gerddi a barddoniaeth rhoddwyd testun i ni gyfansoddi cerdd, sef 'Taith'. Esboniodd y ddau sut y gwnaethant ysgrifennu'r gerdd enwog 'Glaw'. Siaradodd Twm Morys am y ffaith fod popeth o'n cwmpas yn gallu bod yn destun cerdd.

Treuliodd y grwpiau tua hanner awr yn barddoni cyn darllen eu cerddi i'r ddau fardd. Cafodd y grwpiau fwynhad wrth ysgrifennu a meddwl am amryw o gymariaethau a throsiadau. Profiad arbennig oedd croesawu'r ddau i'r ysgol a derbyn eu hyfforddiant.

**Anwen Roberts**

## Ysgrifennu Creadigol

Yr wythnos diwethaf daeth Gwen Redvers Jones (awdures 'Charlie' a nofelau eraill) i siarad â'n dosbarth ni. Soniodd am ei phrofiadau fel awdures a sut y dechreuodd ysgrifennu. Cawsom gip ar lyfr bychan a ysgrifennodd pan oedd hi'n saith mlwydd oed. Cafodd nifer o ddisgyblion gyfle i ofyn cwestiynau a chafwyd atebion doniol a diddorol. Treuliodd ychydig o amser yn dweud storiau ysbryd wrthym. Dysgodd i ni sut mae ei meddwl yn gweithio pan ddaw i ysgrifennu nofelau ac o ble daw ei hysbrydoliaeth. Dywedodd bod y nofel 'Charlie' wedi'i datblygu o un digwyddiad bychan - gwelodd ferch yn cardota yn Rhydychen.

Roedd ei sgwrs yn ysbrydoledig ac fe lwyddodd i annog llawer o'n cyd-ddisgyblion i fynychu'r gweithdy'r oedd hi'n ei gynnig y bore hwnnw. Yn y gweithdy dysgom sut i ddatblygu a disgrifio cymeriadau, defnyddio cymariaethau mewn ffyrdd mwy diddorol a sut i greu stori gyfan o gwmpas un cymeriad. Fe fwynhaodd pawb y profiad ac rydym yn siwr y bydd ei chyngor o fudd i ni yn y dyfodol.

**Siriol Dafydd a Bethan James**

## Taith i Sbaen

Aeth pedwar ar ddeg o ddisgyblion blynyddoedd 9, 10 ac 11, yn ogystal â dwy aelod o staff ar daith addysgiadol i Rosas, yng Nghatalonia, Sbaen, dros hanner tymor mis Chwefror. Er ei bod yn daith hir ar fws dros nos, wedi gadael yr ysgol am ddeg o'r gloch y bore ar ddydd Sadwrn, Chwefror 17eg, roedd cyrraedd haul a thymheredd mwyn Rosas yn bleser wedi glaw gaeafol Caerdydd.

Cadwodd Mrs Rhian Churchill gwmni i flynyddoedd 10 ac 11, sy'n astudio Sbaeneg fel pwnc T.G.A.U., yn eu gwersi llafar ag athrawes leol, Sonia, yn ystod y boreau. Yn y cyfamser, roedd Mrs Marjorie Thomas yn tywys Blwyddyn 9 o amgylch tref Rosas ac yn sicrhau eu bod yn cael blas ar fywyd Sbaeneg!



Roedd teithiau i ddinas Gerona ac i Amgueddfa Salvador Dalí yn Figueras yn y prynhawniau, yn ogystal â chyfleoedd i fynd i'r traeth ac ymarfer Sbaeneg drwy wneud ychydig o siopa... Cafwyd llawer o hwyl yn ystod y daith, yn dathlu penblwydd Vicki yn un ar bymtheg, ac yn enwedig o weld pobl a phlant lleol Rosas yn gwisgo i fyny yn lliwgar ar gyfer dathliadau'r Carnifal. Cafodd y disgyblion gyfle yn ystod eu gwers olaf i fynd allan ar strydoedd Rosas er mwyn cyfweld y bobl leol a'u holi am eu bywydau; roedd rhaid gofyn iddynt beth oedd eu gwisg ar gyfer y Carnifal.

Anodd oedd gadael haul a môr Rosas, ond cyrhaeddodd y bws yn ôl yn ddiogel, er dan gymylau llwyd, ym Mhlasmawr ddydd Gwener, 23 Chwefror.

# Glantaf

## Llongyfarchiadau

- i Ellie Carey, blwyddyn 12, ar gael ei dewis i chwarae pêl-rwyd dros Gymru yn y tim dan 17. Yn ddiweddar chwaraeodd ym Mhencampwriaeth Ewrop (FENA) a bu'r tim yn llwyddiannus gan ddod yn ail i Loegr a churo Gogledd Iwerddon a Gibraltar.
- i Nia Thomas ar ennill ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Bangor i astudio cerdd.
- i Hannah Jones a Mari Osborne ar ennill gwobr teilyngdod a chynnig di-amod i Goleg Prifysgol Aberystwyth.

# Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Y Barri

## Dathlu Mawrth 1af

Dathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi a Dydd Rhyngwladol y Llyfr ar Fawrth 1, 2001 gyda thipyn o steil yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Cynlluniwyd cyfres o weithgareddau oedd yn cyfuno dathlu y ddau achlysur pwysig. Roedd gweld y disgyblion wedi gwisgo mewn coch, gwyn a gwyrdd yn wledd i'r llygad. Gosodwyd naws ar gyfer y diwrnod gydag addoliad pwrpasol ar Ddewi Sant yng ngwasanaeth Llys Illtud. Yn ystod y bore cafwyd cafle i drafod hoff ddeunydd darllen yr athrawon a disgyblion - a rheiny yn amrywio o "Birdsong" a "Chysgod y Cryman" i "OK" a "Cosmopolitan" i ddarllen yn dawel a hefyd i greu nodau llyfr. Enillwyd y gystadleuaeth gan Jonathan Crimp (7B) gyda Rachel King (7G) yn ail a Glenn Welsh (7M) yn drydydd. Uchafbwynt y bore yn sicr oedd y cyfle i ollwng dros gant o falwns i'r awyr las uwchben y Barri gyda phob un o ddisgyblion a staff yr ysgol wedi clymu enwau eu hoff lyfrau wrth y balwns! Mae Dr Baker erbyn hyn yn arbenigwraig ar y dechneg ddiweddaraf!

Darparodd y ffreutur luniaeth Cymreig a bwyd yn seiliedig ar straeon Roald Dahl yn ystod y dydd. Roedd y Wonka bars siocled yn hynod o flasus! Cafwyd cyfle yn ystod yr awr ginio i nodi enwau hoff awduron a hoff genres darllen ar y llyfr enfawr y bu Mr Jones, Technoleg yn ddyfal yn ei greu. Braf cael cofnod o'r diwrnod ar gof a chadw. Cyhoeddwyd canlyniadau pleidlais hoff awdur a hoff lyfrau digyblion blwyddyn saith - gyda T Llew Jones a Roald Dahl ymhell ar y blaen i'r awduron Cymraeg a Saesneg arall.




*Disgyblion blwyddyn 7 yn mwynhau darllen*

Aed ati yn y prynhawn i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi gyda chwis, canu a disgo. Y bechgyn a orfu yn y cwis oedd yn canolbwyntio ar elfennau Cymreig gyda bechgyn Cadog ac Illtud yn gydradd gyntaf a bechgyn Mihangel yn ail. Er mawr syndod i Mr Chidley (oedd heb helpu aelodau ei lys o gwbl!) llwyddodd Llys Illtud i ennill o drwch blewyn! Mwynhawyd y cyfle i ganu caneuon megis "Sosban Fach", "Calon Lân", "Lawr ar lan y môr" ac ati dan arweiniad Mrs Perret a bechgyn Llys Cadog. Yn dilyn hyn oll ac yn glo i ddiwrnod diddorol a llawn bwrlwm yn y Fro cafwyd disgo dan ofal rai o aelodau 7M a 7G. Diwrnod a erys yn y cof am amser hir.

* * * * * *



*Jamie Baulch yn ysgwyd llaw hefo Huw Lewis enillydd y gystadleuaeth*

## Ymweliad Jamie Baulch - Ionawr 30, 2001

Roedd athrawon a disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn falch iawn y bore yma i groesawu Jamie Baulch, pencampwr dan do y byd dros 400m i'r ysgol.


Prif reswm yr ymweliad oedd oherwydd i Huw Lewis, disgybl ym mlwyddyn 7, ennill cystadleuaeth ar raglen deledu BBC "Grandstand". Y wobr oedd i Jamie Baulch dreulio diwrnod yn ysgol yr enillydd.

Yn ystod awr gyntaf o ymweliad Jamie, cymerodd grŵp cymysg o ddisgyblion am wers athletau. Mwynhaodd y disgyblion y profiad o gael eu dysgu gan 'seren' o'r byd chwaraeon yn fawr iawn.

Yn dilyn y wers gan Jamie ymgynullodd pawb yn y neuadd lle siaradodd Jamie am ei fywyd a'i yrfa ym myd athletau. Dilynwyd hyn gan sesiwn ddiddorol a bywiog o gwestiynau gan y disgyblion i Jamie.

I gloi yr ymweliad cyflwynwyd Huw Lewis gyda'i wobr, sef un o grysau athletau rhyngwladol Jamie.

* * *



Fe wahoddwyd Adran Fathemategol 'Techniquest' i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar. Cafwyd prynhawn buddiol wrth ymchwilio i mewn i gyfrinachau a phroblemau byd y rhif a'r siâp. Gwnaed hyn mewn ffordd ddiddorol a chyffrous. Bu'r prynhawn yn llwyddiant ysgubol!

Hoffai'r ysgol ddiolch ar goedd am ymdrechion glew Mr Peter Moody ac Elen (ei gynorthwydd) wrth ddarparu'r wledd fathemategol gerbron ein disgyblion.

Yn y llun gwelir plant Blwyddyn 7 yn mwynhau'r Sioe Fathemateg gyda Miss Elen Jones

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Pêl-droed



### Caerdydd ar frig dyrchafu?

Er nad oes unrhyw sicrwydd wrth broffwydo canlyniadau gêmau pêl-droed, medr cefnogwyr Caerdydd fod yn weddol ffyddiog y bydd eu tîm yn dyrchafu i'r ail adran ar ddiwedd y tymor - yn enwedig o gofio am eu chwarae pwrpasol, deheuig a chreadigol - yn enwedig oddi cartre i Amwythig a gartre yn erbyn Caerliwelydd pan sgoriwyd wyth o weithiau.

Yn erbyn Caerliwelydd cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig - sef sgorio 80 o golie am y tymor a 10 gêm yn weddill - mae cyrraedd y 100 yn bosibl.

Y calondid mwyaf yw fod nifer o'r chwaraewyr wedi sgorio'n helaeth - eu prif sgoriwr Robert Earnshaw, ond cyfraniadau helaeth hefyd oddi wrth Jason Bowen, Paul Brayson, Fortune West (sy'n fythol boen i amddiffynwyr fel blaenwr canol) a hyd yn oed eu canolwr, Scott Young. Mae hyn oll yn tystio i chwarae creadigol, cytbwys er na fu'r amddiffyn mor gadarn ag y dymunai fod mewn rhai o'r gêmau.

Yn bwysicach fyth mae yna chwaraewyr o fewn y garfan a ddylse fod yn gwbwl gyfforddus mewn adran uwch - sef Danny Gabbidon, Rhys Weston (un o amddiffynwyr cyflyma'r adran), Scott Young, Paul Brayson, Willie Boland, Marc Bonner a Fortune West - a'r ddau allweddol, Jason Bowen ac Andrew Legg - i enwi ond rhai.

Tasg anodd fydd enwi chwaraewr gore'r tymor ond mae'n sicr y bydd enw Andy Legg (33 oed) ymhlith y rheini - chwaraewr sy'n rhoi 100 y 100 ymhob gêm - a chwaraewr sy'n gyfforddus a'r bêl yn ei feddiant fel amddiffynnwr - chwaraewr ganol cae neu hyd yn oed asgellwr - ie, chwaraewr a gyfrannodd yn helaeth i lwyddiant y tîm.


Y gobaith yw y bydd dyrchafiad wedi ei sicrhau cyn gêmau ola'r tymor, trwy orffen ymhlith y tri ucha ac ni fydd yn rhaid ymwneud â'r gêmau ail gyfle i'r timau sy'n gorffen o'r 4ydd hyd at y 7fed.

Pob clod i Sam Hammam ar drawsnewid y clwb a'r tîm. Y ffordd ymlaen i'r dyfodol yn ei dyb ef yw maes newydd - hyd nes cyflawni hyn - os dyrchafu, mae'n barod i wario'n helaeth ar Barc Ninian ac agor y lloc o flaen yr eisteddfa fawr gyferbyn â'r brif eisteddfa i'r cyhoedd - a maes bellach a all ddal 25,000.

Tybed a fedr Caerdydd orffen y tymor heb golli'r un gêm ar eu maes eu hun? Mae'n gofyn cryn dipyn yn enwedig o gofio fod pob tîm bellach yn awyddus i'w curo - a phob gêm fel rownd derfynol cystadleuaeth cwpan. Ond mae'r gamp o fewn eu cyrraedd gyda chydweithrediad y chwaraewyr, yr hyfforddwyr a'r cefnogwyr sy'n haeddu llwyddiant ar ôl tymhorau lawer o obeithio.

**Howard Spriggs**

## Rygbi



Beth a ddigwyddodd ar Fawrth 12fed, 1881? Llawer o bethau'n ddïau, ond gan fod y cwestiwn yn codi ar dudalen campau'r "Dinesydd" rhaid bod y digwyddiad hwn yn yr un maes; cymorth i chi - yng Ngwesty'r Castell, Castell-Nedd, y digwyddodd, ac fe ddylech wybod bellach mai dyna pryd y sefydlwyd ein Hundeb Rygbi Cenedlaethol. Daethai cynrychiolwyr un clwb-ar-ddeg at ei gilydd i drafod y sefydlu o dan gadeiryddiaeth capten clwb Abertawe, A. H. Richardson, a'r dyddiad hwnnw, sef Mawrth 12fed, 1881, ydy' dyddiad swyddogol sefydlu'r Undeb. Ond buasai cyfarfod cyn hwnnw yng Ngwesty Dinbych-y-Pysgod yn Abertawe, gyda'r bwriad o sefydlu'r Undeb, ond ni chafwyd unrhyw dystiolaeth ddilys ynglŷn â hwnnw. Syniad Henry Mullock, ysgrifennydd Clwb Athletig Casnewydd, ydoedd er mwyn dewis tîm i gynrychioli'r wlad yn erbyn Lloegr. Y clybiau a'u cynrychiolwyd ym Mawrth 1880 oedd: Caerdydd, Casgwent, Hwlffordd, Llandaf, Llanelli, Castell-Nedd, Pontypridd, Abertawe a Chasnewydd - rhestr ryfedd, a dweud y lleiaf. Pan chwaraewyd yr ornest gyntaf honno rhwng y ddwy wlad, yr oedd chwaraewyr o Gasgwent, Hwlffordd, Llandaf a Phontypridd yn y tîm yn Chwefror 1881 - y 19ydd, a bod yn fanwl - ac ar faes Blackheath, clwb hynaf Lloegr, collodd Cymru o saith gôl, gôl adlam a chwe chais i ddim. 'Roedd hi'n hen bryd inni gael Undeb swyddogol ac fe'i cafwyd yn y cyfarfod yng Nghastell-Nedd gydag Abertawe, Llanbedr-Pont-Steffan, Llandeilo, Caerdydd, Casnewydd, Llanelli, Merthyr Tudful, Llanymddyfri, Aberhonddu, Pontypwl a Bangor yn sicrhau eu lle yn hanes rygbi'r genedl trwy bleidleisio'n unfrydol ar ddiwedd trafodaeth sylweddol dros sefydlu Undeb Cenedlaethol. Ar ôl 120 o flynyddoedd yr oedd gan bedwar o'r clybiau hynny chwaraewyr yn y tîm a gurodd Ffrainc yn Stadiwm Ffrainc o 43 o bwyntiau i 35 (ac o bedwar cais i ddau) ar y 17 Mawrth. Gyda Phontypŵl y dechreuodd Mark Taylor ei yrfa, a ganwyd Robin McBryde ym Mangor.

Mae dyddiad anfon deunydd at "Y Dinesydd" yn bur anffodus yn aml, ond y tro hwn mae hi'n arbennig o letchwith, oherwydd ei bod yn nos Lun cyn gornest ar Sain Helen rhwng Abertawe a Chaerdydd yn Rownd Wyth Olaf y Cwpan Cenedlaethol. Mae hi'n debyg mai'r enillydd fydd yn ennill y Cwpan yn y Stadiwm Mawr, Mai 12fed, er i Gasnewydd ddangos wrth guro Pen-y-bont yn y Cynghrair o 34-9 ar Gae'r Bragdy eu bod yn cyrraedd eu huchafbwynt yr amser iawn. Ar wahân i'r Cwpan, bydd Cymru wedi chwarae yn Rhufain cyn i'r rhifyn hwn ymddangos, ac felly ni ellid bwrw golwg ar honno.

Ond mae'r ornest ym Mharis yn haeddu ychydig o eiriau gan ei bod mor gyffrous, yn enwedig yn yr hanner olaf, ac yr oedd pob un o'r pedwar cais yn dda iawn. Mae hi'n debyg mai trobwynt yr ornest oedd cais Robert Howley - derbyn pas Scott Quinnell ychydig y tu allan i 22 Cymru a gwibio'r holl ffordd, gan orffen trwy dwyllo'r cefnwr, Sadourny, mewn modd gwefreiddiol. 'Roedd hi'n 19-16 ar yr hanner, a goleuodd hi ar ôl inni fod ar ei hôl hi o ddeg pwynt. Cyfrannodd Scott Quinnell yn fwy na neb at y fuddugoliaeth, ac ni welais well cyfraniad gan wythwr erioed. (A minnau'n credu na ddylai fod yn y tîm!)

Caf fwrw golwg ar ein gornest olaf - yn erbyn Iwerddon ar 24 Ebrill - ar Y Maes Mawr.

## Ar y CYD...

yng ngofal
Lynne Davies



Gyda'r Gwanwyn yn brysur nesáu, mae'r meddwl yn troi yn ôl at yr ardd. Rwy' wedi sylwi nad oes colofn garddio yn Y Dinesydd ar hyn o bryd, ac felly penderfynais rannu fy arbenigrwydd gyda chi. Pan symudais i Gaerdydd tua thair blynedd yn ôl, dechreuais gymryd gofal am y tro cyntaf dros ardd fawr. Sylweddolais fod rhaid dysgu'n glou sut i ymdopi â hi. Dros y tair blynedd, rwy wedi dysgu cryn dipyn o wersi, ac, yn absenoldeb Hwn a Hon (a chan fy mod i'n galon i gyd), rwy'n barod i'w pasio nhw ymlaen atoch chi.

1. Peidiwch â gohirio tan yfory y peth y gallech chi ei osgoi yn llwyr. Dyma'r amser i blannu hadau, ond does dim rhaid; mae planhigion yn ddigon rhad yn Woolworths, ac yn llawer llai o ymdrech. Gwnewch yn siŵr bod llawer o fylbau i mewn a phlanhigion sy'n blodeuo bob blwyddyn, gwnewch baned o goffi, ac eisteddwch a'u mwynhau.

2. Yn lle tynnu'r chwyn, dysgwch eu henwau. Gallech ddweud bod gennych ardd flodau gwyllt a gwneud argraff ar eich ymwelwyr gan ddangos eich gwybodaeth o natur (yn Saesneg ac yn Gymraeg - neu dim ond yn Gymraeg os ydych chi eisiau - mae dysgu'r enwau Lladin ychydig dros ben llestri). Yn ogystal â Blodau Menyn a Llygaid y Dydd mae gen i Fysedd y Cŵn, Briallu, Clychau'r Gog, Cochyn Bratiog, Tanllys, Meillion a llawer o'r cant a hanner math o Ddant y Llew, i enwi dim ond rhai.

3. Os oes gennych fwyar ar waelod yr ardd, peidiwch â mynd ati gyda'r strimmer. Plannwch rywbeth tal o'u blaen - mae Lavatera yn effeithiol - rhowch ychydig bach o wrtaith iddynt (dylai fwyd tomato weithio) a mwynhewch darten yn yr Hydref.

Ac fel mae'r dyn mawr ar y BBC yn dweud, beth bynnag y tywydd, mwynhewch eich gardd - ond cofiwch fod ganddo fe lawer mwy o amser i'w thrin!

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| rhannu - *to share* | Briallu - *primroses* |
| arbenigrwydd - *expertise* | Clychau'r Gog - *bluebells* |
| yn glou - *yn gyflym* | Cochyn Bratiog - *ragged robin* |
| gohirio - *to put off* | Tanllys - *willow herb* |
| osgoi - *to avoid* | Meillion - *clover* |
| hadau - *seeds* | Dant y Llew - *dandelion* |
| chwyn - *weeds* | mwyar - *blackberries* |
| Blodau Menyn - *buttercups* | effeithiol - *effective* |
| Llygaid y Dydd - *daisies* | gwrtaith - *fertilizer* |
| Bysedd y Cŵn - *foxgloves* | trin - *to treat, look after* |

Cofiwch bod grŵp CYD yn dal i gwrdd yn Nhafarn y Tavistock (Stryd Tavistock) ar nos Fercher am 9 o'r gloch.

* * *

GYMRY CYMRAEG! - os allech chi fod yn gyfaill llythyr i ddysgwr, gwnewch chi gysylltu â Lynne d/o Swyddfa CYD, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, SY23 2AU, neu e-bost DaviesJL@aol.com, os gwelwch yn dda.

## Cynllun Iaith "Mind Cymru"

Mae Mind Cymru, yr elusen iechyd meddwl, wedi cynhyrchu cynllun iaith. Mae'r cynllun yn dangos sut y bydd Mind yn gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal.

Mae croeso i chi gael copi o'r cynllun a chyflwyno sylwadau drwy gysylltu â Mind Cymru, Ty Quebec, Castlebridge, 5-19 Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 1AB.

## Cofio Ivor Novello

Hanner can mlynedd i eleni bu farw Ivor Novello y cyfansoddwr, actor a dramodydd. Cafodd ei eni ar 15 Ionawr 1893 mewn tŷ ar Cowbridge Road East yn Nhreganna a bu farw yn Llundain ar 6 Mawrth 1951. Bu ei deulu yn aelodau yng Nghapel Salem, Treganna ac oedd ei fam Madam Clara Novello Davies yn adnabyddus fel Arweinydd Côr Merched a ffurfiodd hi. Pan oedd e'n 21 oed cyfansoddodd gân a ddaeth yn enwog sef "Keep the Home Fires Burning". Mae cynlluniau ar droed i godi cerflun er cof amdano a'i roi yng Nghanolfan y Mileniwm arfaethedig ym Mae Caerdydd ac eisioes casglwyd £25,000 at y pwrpas hwnnw ond mae angen £50,000 arall a felly os hoffai rhywun gyfrannu tuag at gost y cynllun dylid anfon siec yn daladwy i "Apêl Cerflun Ivor Novello", 94 Rhyd y Pennau Road, Cyncoed, Caerdydd CF23 6PW.

## Western Power yn rhoi Cymorth i Ddysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Bydd Western Power Distribution yn noddi Pabell y Dysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni.

Cyflwynodd Sarah Bullock, Rheolwr Cysylltiadau Corfforaethol WPD, siec werth £30,000 i Elfed Robert, Prif Weithredwr yr Eisteddfod yn swyddfeydd yr Eisteddfod yn Llanisien. Mae hyn yn nodi menter fawr gyntaf i'r cwmni ei chyhoeddi ers iddynt brynu Hyder ym mis Medi y llynedd.

Dywedodd Robert Symons, Prif Weithredwr WPD, 'Rydym yn hynod o falch o fod yn noddi Pabell y Dysgwyr yn yr Eisteddfod yn Ninbych y flwyddyn hon. Rydym yn deall pwysigrwydd yr Wyl i'r iaith Gymraeg, ac felly yn falch o gael y cyfle i noddi rhywbeth mor amlwg â hyn ac yn gobeithio y bydd yn hybu ddiddordeb pellach a datblygiad yr iaith'.

Meddai Elfed Roberts, Prif Weithredwr yr Eisteddfod: "Rydym yn ddiolchgar iawn i WPD am gefnogi gweithgareddau'r dysgwyr yn yr Eisteddfod eleni. Mae'r nawdd yma yn ein galluogi i ddatblygu cyfleoedd newydd i ddysgwyr o bob oed i gymeryd rhan mewn digwyddiadau yn ardal Dinbych, yn ogystal â chreu rhaglen gyffrous ac amrywiol ar gyfer wythnos yr Eisteddfod".




Sarah Bullock, WPD ac Elfed Roberts, Eisteddfod Genedlaethol

## Lawnsiad llyfr Cymraeg y Celtiaid

Nos Wener, 16 Mawrth cynhaliwyd cyngerdd Adiemus yn Neuadd Dewi Sant o waith y cyfansoddwr dawnus Karl Jenkins ac yn sgil y cyngerdd lawnsiwyd llyfr Cymraeg y Celtiaid gan Dr John Davies wedi ei seilio ar y gyfres deledu "Y Celtiaid" a ymddangosodd ar S4C. Karl Jenkins oedd cyfansoddwr y gerddoriaeth ar gyfer y gyfres. Yn bresennol yn y lawnsiad oedd Paul Flynn A.S., Guto Harri, cyflwynydd y gyfres; Dr John Davies, yr hanesydd a'r awdur; Huw Jones, Prif Weithredwr S4C a Dr Phil Williams A.C. Cynhyrchwyd "Y Celtiaid" gan Deledu Opus Cyf i S4C a gellir prynu copi o'r llyfr yn y siopau am £18.99.

## Agor Canolfan Feddygol Newydd

Erbyn hyn mae Canolfan Feddygol Newydd wedi agor yn Ysbyty'r Brifysgol ar gost o £78,000 i roi cymorth i ddioddefwyr clefyd y siwgr yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae 12,000 o bobl yn yr ardal yn dioddef oddi wrth y clefyd hwn a felly bydd y Ganolfan hon o gymorth mawr iddyn nhw.

## Ennill Tlws a Mil o bunnoedd

Cynhaliwyd rownd derfynol Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Cymru 2001 dan nawdd Cwmni Texaco yn Theatr y Sherman ar nos Sadwrn, 24 Mawrth pan ymddangosodd chwe cherddor ifanc ar y llwyfan. Dyfarnwyd tlws a mil o bunnoedd i'r enillydd sef Sara Cresswell, 15 oed o Ysgol Uwchradd Llanisien. Roedd ei chwaer Anna hefyd yn un o'r chwech ar y llwyfan. Bydd Adran Gerdd ei hysgol yn derbyn mil o bunnoedd hefyd a ddefnyddir at gronfa prynu piano newydd ar gyfer yr Adran. Edward Henry Jones o Aberystwyth ddaeth yn ail a Samantha Clare Ward o'r Rhyl yn drydydd. Llongyfarchiadau i Sara Cresswell ar ei champ.

## Cyfres Newydd o *Dudley (S4C)*


Unwaith eto rwyf yn awyddus i grwydro Cymru a chwrdd â mwy o gymeriadau lliwgar a diddorol i rannau ryseitiau a chael sbort. Os oes diddordeb gennych chi neu os gwyddoch chi am unrhyw rai a fydde'n addas ar gyfer y gyfres nesa - cysylltwch â fi.



Hoffwn glywed am:
i) **Ryseitiau** - rhai traddodiadol, teuluol neu rai unigryw i ardal/bro.
ii) **Cymeriadau** sy'n adnabyddus am eu cynnyrch (gwin, cacennau....) a phobol sy'n **cystadlu mewn sioeau** gyda'u jam, pickles, llysiau ayyb.
iii) Unrhyw **ddigwyddiadau** arbennig yn yr ardal sy'n ymwneud â bwyd.
iv) **Ceginau diddorol** ac unigryw yn yr ardal - yn geginau cartre a cheginau busnesau bwyd.
v) **Sialens neu her** - Unigolion neu grŵp o bobol sydd angen help ac arweiniad i baratoi bwyd ar gyfer achlysur arbennig. Os am lunio gwledd ar gyfer criw o ffrindiau, am greu argraff ar y wraig, y gŵr neu'r cariad ar achlysur arbennig, neu am fwydo côr meibion lleol, gall Dudley ddod i helpu! Po fwyaf dwl a diddorol y sialens gorau' gyd.

Cysylltwch â mi gynted â phosib, byddwn yn ffilmio dros yr Haf. Dudley, Teledu Opus, 60 Severn Grove, Pontcanna, Caerdydd CF11 9EP. Neu ffoniwch ni ar 029 2022 3456.

## Casglwyr di-guro!




Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Bro Eirwg, Llanrhymni ar gasglu y nifer uchaf o'r llyfr "Tudalennau Melyn" mewn cystadleuaeth ymhlith ysgolion y ddinas. Ail gylchir yr holl lyfrau a gasglwyd yn ystod yr ymgyrch. Cymerodd 23 o ysgolion ran yn y gystadleuaeth a chasglwyd dros 2,000 o gopïau gan gynnwys 526 a gasglwyd gan ddigyblion Ysgol Bro Eirwg.

## Seren Sioe Cymdeithas Gerddorol Llandaf

Rhwng 3-7 Ebrill cynhyrchwyd y Sioe Gerdd "Half a Sixpence" gan Gymdeithas Gerddorol Llandaf yn Theatr y Sherman. Cymerwyd y prif ran gan Laura Harries, 17 oed sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Llongyfarchiadau iddi hi.

## Ysgol Gymraeg arall i Sir Fynwy

Ar ôl dwy flynedd o ymgyrchu gan nifer o rieni yn ardal Cil y Coed, Sir Fynwy bydd Ysgol Gymraeg yn agor yno ym mis Medi. Mae 444 o ysgolion Cynradd Cymraeg yng Nghymru gyda bron 50,000 o ddisgyblion ac mae 52 o ysgolion uwchradd Cymraeg gyda 37,000 o ddisgyblion. Siaredir Cymraeg ar aelwyd 14,000 o ddisgyblion yr ysgolion Cynradd Cymraeg ond mae rhif y disgyblion sy'n rhugl yn yr iaith ond o gartrefi di-gymraeg wedi codi o 15,000 i 22,000 yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

## Bwyty Asaidd Newydd i Gaerdydd

Nos Lun, 21 Mawrth, cafwyd agoriad swyddogol i Fwyty'r "Oriental Kingdom" gyferbyn â Stadiwm y Mileniwm a gwelwyd sêr rygbi megis Rupert Moon, Craig Quinnell, ac ati yno i gefnogi y cyn seren rygbi Barry John oedd hefo nifer o bartneriaid y tu cefn i'r fenter newydd hon.

## Colli Eirene



Fel bod y rhifyn hwn yn mynd i'r wasg clywyd y newyddion trist am farwolaeth Eirene Anthony Davies yn 94 oed. Bu'n briod â T. Rowland Hughes y nofelydd, darllenwr a bardd ac ar ôl ei farwolaeth, briododd ag Anthony Davies y newyddiadurwr a sgrifennai golofn yn y papur newydd *The News Chronicle* dan y ffug enw 'Llygad Llwchwr', ac yn y *Cymro*. Bydd teyrnged i Eirene Anthony Davies yn y rhifyn nesa o'r *Dinesydd*.

## Aelod Cyntaf yr Awdurdod Radio

Llongyfarchiadau i Geraint Talfan Davies, cyn Reolwr y BBC yng Nghymru ar ei benodiad fel aelod cyntaf yr Awdurdod Radio gyda chyfrifoldeb arbennig dros Gymru.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

CAERDYDD a'r Fro

Urdd 2001

# Cerddi i'r Urdd

Lluniwyd y cerddi isod yn arbennig ar gyfer noson o adloniant yng nghartref Hywel a Gwyneth Jeffreys ar ddechrau'r flwyddyn i godi arian ar gyfer ymweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â Chaerdydd. Codwyd dros £1600 y noson honno.



## Mistar Urdd

Rwy'n cofio'r amser
pan oedd y Gymraeg yn rhy swil
i ddangos ei hunan
ar briffyrdd ein haddysg,
ac aeth i gwato'i chywilydd
yng nghwtsh-dan-stâr gwers olaf pnawn Gwener.

Ac yno yr heneiddiodd.
Gwelwodd ei gruddiau yn y tywyllwch,
crafodd y llwch yn ei llwnc,
a chlymodd y cric ei chymalau segur.

Ac yna daethost ti,
Mistar Urdd, y pibydd lliwgar,
yn dy goch, gwyn a gwyrdd,
gan ddawnsio hyd heol gul y Cwm,
a denu'r Iaith o afael y llygod.
Ei thywys gerfydd ei thafod
i dorheulo yn llygad haul Llangrannog,
ac i ystwytho ei chymalau eilwaith
ag eli o lysiau llesol Llanuwchllyn.
Cael clirio ei llwnc yn chwaon y bryniau,
a pheri iddi glywed ei llais ei hunan
yn dod yn ôl ati ar draws y llyn.

A phan drodd hi tua thre
yr oedd arni liw haul
i gywilyddio'r rhai gwelw,
a chân newydd
heb arwydd o'r hen grygni,
yn seinio'n hyderus
i gyfeiliant clic y clocsiau chwim.

*Meirion Evans*
Porth Tywyn Rhagfyr 2000

## Urdd Gobaith Cymru

Rhyfeddod yw holl weithgareddau'r Urdd
Fu'n cynnal breuddwyd y sefydlwyr gynt -
A welodd yn y gwyn, y coch a'r gwyrdd
Y gwerthoedd i'n cyfeirio ar ein hynt.
Mewn Aelwyd ac Uwch Adran cafwyd hwyl
Fu'n fodd i gymdeithasu yn ein hiaith,
Gan ddathlu yn yr Eisteddfodol Ŵyl
Yr ymdrech ddaeth wrth gyrraedd pen y daith.
Rhydd canolfannau'r Urdd gyfleoedd braf
I arfer dawn, creu hwyl a thynnu coes -
Mewn twmpath dawns neu fabolgampau'r haf,
Gan adeiladu cyfeillgarwch oes.
Mae'r gwreiddiau'n tynnu maeth o dir ein gwlad
I gynnal ffydd a gobaith ein parhad.

*Denzil I. John*


## Atgofion Gwersyllaidd

Dychmygwch, os gallwch, am grwt o Gaerdydd
Ie, dewch 'nôl gyda fi i'r tridegau,
Yn cael ffoi o'r brifddinas am bythefnos o haf
I arfordir y Gogledd a'i draethau:
Roedd gwefr dim ond meddwl am draeth
I bentre y pebyll am getyn.
Neu, bob yn ail flwyddyn, Llangrannog am dro
A thaith ar y trên i Bencader,
Ac yna y bws yn ein cario trwy'r fro
Llandysul, Brynhoffnant, ar fyrder.
A bois, dyna hwyl, Bobi Gordon tal, main
Ar ben y maen llog fel rhyw frenin,
Hywel Bach a Bryn Ashton, Elwyn Jones ac R.E.
Ie, gorsedd y beirdd Ynys Lochtyn.
A nhw'r bois o'r Gogledd yn dod lawr i'r De -
Gwyn ap Ifor a Cemlyn a Meurig,
A fo, Gwynedd Pearce - Dixie Dean y pêl-droed
Yn codi i'r bêl fel rhyw ewig.

Doedd dim o'r cysuron sydd heddiw yn bod,
Padell gynfas i olchi'n y bore,
Llond cwpan neu ddoi o ddŵr oer - yna lan
I gael creision a bacwn a wye.

Fe allai ein cân fynd ymlaen ac ymlaen
I rannu y llu o atgofion -
Mr Jones yn y siop a'r melysion di-ri,
A'r nyrs a'r te senna a'r moddion.
Ond gwell dod i derfyn - am heno, "Nos Da"
Ond efallai daw mwy flwyddyn nesa.

*Maxwell Evans*




# TWRIO

*(rhaglen hen bethau S4C)*
**yng Nghastell Hensol Ebrill 21**

***Ydych chi'n casglu hen lestri, lluniau, gemwaith ac ati?***
***Ydych chi'n awyddus i wybod eu gwerth?***

Yna dewch i Gastell Hensol ym Mro Morgannwg ar Ebrill 21 rhwng 3pm a 5pm ac fe fydd arbenigwyr TWRIO yn falch o fwrw golwg drostynt a'u prisio.

Am bob crair a brisir, fe godir tal bychan, cyfraniad tuag at **Gronfa Apêl Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2002!**
Y noson honno darlledir rhaglen TWRIO yn fyw o'r Castell, pan fydd 3 prif eitem yn mynd o dan y mwrthwl. Os ydych am gynnig am un o rhain, mynnwch gatalog, ar gael yn rhad ac am ddim gan S4C. Bydd holl elw y gwerthiant hwn hefyd yn mynd i'r gronfa apêl.

**DEWCH i Gastell Hensol ar Ebrill 21**
**Dewch i DWRIO.**

Manylion pellach gan Elinor 02920627733, Cath 01446774530 neu S4C.

# Problemau Cyfrifiaduro?

Gwersi i ddysgwyr • Acennau Cymraeg
Prosesu geiriau • Datrys problemau
Safleoedd ar y We • Gwaith graffeg
Diagramau • Taflenni gwaith
Adfer lluniau

**(029) 2089 2520**

Y Cwmni Cyfrifiaduro Proffesiynol
www.secretcom.co.uk

## Agor y Drws ar 23 Mehefin

Bydd diwrnod i hybu'r Gymraeg yng Nghaerdydd â Bro Morgannwg yn cael ei gynnal yn Neuadd Dewi Sant rhwng 10.00 a.m. a 4.00 p.m. ddydd Sadwrn, 23 Mehefin. Trefnir y diwrnod gan Gonsortiwm Addysg Gymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Ei nôd yw hybu gweithgareddau Cymraeg yr ardal. Bydd stondinau gan gymdeithasau a sefydliadau, ac amrywiaeth o adloniant. Hefyd bydd llyfryn yn rhestru cymdeithasau a gweithgareddau cyfrwng-Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro yn cael ei ddosbarthu ar y diwrnod.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Nans Couch,
2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 5QH
Ffôn: 029 2075 3625. E-bost: nans.couch@talk21.com.

# TESTUN

**CYFIEITHU...TELETESTUN...YSGRIFENNU...IS-DEITLO**

Yn sgil ennill cytundebau newydd, mae cwmni Testun yn ehangu ac felly'n chwilio am staff profiadol i ymuno â'n tîm cyfieithu.

**UWCH-GYFIEITHYDD/CYFIEITHYDD**

Oes gennych chi ddawn i gyfieithu? Oes gennych chi Gymraeg a Saesneg graenus, gwybodaeth drylwyr am Gymru a'i sefydliadau? Oes gennych chi brofiad helaeth ym maes cyfieithu a golygu ac ydych chi'n gallu gweithio'n gyflym o dan bwysau?

Mae Testun Cyf yn chwilio am **uwch-gyfieithydd / cyfieithydd** i weithio'n llawn amser (neu ystyrir trefniant rhannu swydd) yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd gan y sawl a benodir brofiad o gyfieithu a bydd uwch-gyfieithydd yn meddu ar brofiad helaeth o gyfieithu, rheoli tîm o gyfieithwyr, golygu gwaith, trafod cytundebau ayb.

Graddfeydd Cyflog y swydd(i):
£17,000 – £24,500 pa (ynghyd â phensiwn)

Am ffurflen gais a darnau prawf, cysylltwch â
Maria Bloor neu Geinor Jones
Testun Cyf, Tŷ Norfolk, 57 Heol Siarl,
Caerdydd, CF10 2GD
Ffôn: 029 2023 1722 E-bost: testun@testun.co.uk

Dyddiad cau: 12 Ebrill 2001

Prifysgol Cymru Aberystwyth The University of Wales | CANOLFAN ADDYSG BARHAUS CENTRE FOR CONTINUING EDUCATION

# YR YSGOL HAF

Gregynog 20-24 Awst 2001





**MATERION BYD CYFOES: ASTUDIAETHAU CYMHAROL YNG NGWLEIDYDDIAETH Y BYD MODERN**

Arweinydd yr Ysgol Haf: Dr. John Davies
(Awdur Hanes Cymru)

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ganolfan
- Ffôn: 01970 621580

*Yn hybu rhagoriaeth mewn dysgu ac ymchwil / Promoting excellence in teaching and research*

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF**

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

**Geraint B. Llewelyn**
LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED, CAERDYDD, CF23 6PA**
**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **0468 973229**

# DEINTYDD

Yn cynnig triniaeth
o dan y Gwasanaeth Iechyd (NHS)
a thriniaeth annibynnol.

*Cysylltwch â:*
**HYWEL SAMUEL,** B.D.S. (Cymru)
**RHODRI EVANS,** B.D.S. (Cymru)
28 Heol Eglwys Fair, *(drws nesaf i McDonald's)*
Canol Caerdydd.
Ffôn: 029 2037 1393

# YN EISIAU

Rhywun i gludo dau blentyn yn ôl o'r ysgol bob dydd, ynghyd â rhai dyletswyddau eraill.

Cysylltwch â:
029 20237777
yn ystod oriau gwaith,
a dyfynnu'r cyfeirnod AWR